**Disgrifiad Swydd**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl Swydd** | **Swyddog Gwasanaeth Preswyl – Tŷ Augusta** | | |
| **Rhif Swydd** | | **Gradd** | Graddfa 5 |
| **Gweithle** | Tŷ Augusta | **Oriau Gwaith:** | 20 |
| **Lwfans Defnyddiwr Car** | Dim | **Datgeliad** | Estynedig |
| **Cyswllt** | Helen Beecham | **Diweddarwyd:** | Tachwedd 2023 |

## Prif Ddiben y Swydd

Atebol i: Rheolwr Cofrestredig

Atebol am: Cynorthwyo gyda darparu gofal a chymroth wedi ei asesu i unigolion yn defnyddio’r gwasanaeth, drwy drefnu a chymryd rhan mewn rhaglenni a gynlluniwyd ar gyfer y diben o gynyddu potensial a bodlondeb unigolion i’r eithaf..

## Prif Gyfrifoldebau

1. Sicrhau fod yr egwyddorion/safonau a nodir yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 yn sylfaen i bob agwedd o’ch gwaith.
2. Cynorthwyo gyda rheoli mathau o ymddygiad sy’n herio..
3. Annog a chefnogi tenantiaid i gymryd rhan ym mhob penderfyniad yn ymwneud â phob agwedd o’u bywydau.
4. Rhoi help, arweiniad a gofal personol fel sydd angen gan y tenantiaid, gan sicrhau y cedwir urddas a hunan-barch tenantiaid bob amser.
5. Cynorthwyo unigolion i ddewis a gofalu am eu dillad, annog gwisg addas ar gyfer pob sefyllfa ac amodau tywydd.
6. Cofnodi pob trafodiad ariannol yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau yr adran.
7. Cefnogi unigolion i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau cymdeithasol/hamdden.
8. Cynorthwyo unigolion i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol.
9. Cadw perthynas briodol ac ymddiriedaeth gyda thenantiaid.
10. Cefnogi unigolion i drin eu meddyginiaeth eu hunain lle’n briodol a gweinyddu meddyginiaeth yn unol â pholisi a gweithdrefn a gytunwyd gan yr adran.
11. Cyfrannu at y broses gofal unigol a chynllunio gwasanaeth, ysgrifennu adroddiadau a mynychu cyfarfodydd ac adolygiadau gofal fel a phan fo angen.

12. Cadw cyfrinachedd ym mhob maes o waith, fel sydd angen, gan gydnabod yn arbennig fregusrwydd yr unigolion.

13. Cydlynu gyda rheolwyr gofal, staff gwasanaeth dydd, teuluoedd, gofalwyr a chydweithwyr fel sydd angen ac er budd gorau y tenant.

14. Cynnal cofnodion fel sydd angen, gan adrodd a chofnodi materion mewn dull addas yn ymwneud â'r unigolion.

15. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff, goruchwylio staff a datblygu staff.

16. Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant fel sydd angen.

17. Cyfrannu at ddarparu eiriolaeth ar gyfer unigoliion.

18. Sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng nghyswllt tenantiaid, staff ac eiddo.

19. Dyletswyddau eraill priodol i'r radd a'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

20. Cydymffurfio gydag adrannau perthnasol datganiad polisi yr Awdurdod ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn y Gwaith.

21. Cydymffurfio ag egwyddorion y polisi corfforaethol ar Gydraddoldeb a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

Blaenau Gwent

# Manyleb Person

## 1. Cymwysterau a phrofiad

| Cymwysterau/profiad perthnasol | Dull Asesu: Hanfodol/ Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (noder) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| QCF lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol | H | ✓ | | | |
| QCF lefel 3 – Plant ac Oedolion<br><br>Mae angen cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, yna bydd angen i chi gofrestru o fewn chwe mis i ddechrau eich cyflogaeth. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ganlynol: [https://gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) | D | ✓ | | | |
| **Profiad arall** | | | | | |
| Profiad o weithio gydag unigolion gydag anawsterau dysgu | H | ✓ | | | ✓ |
| **Arall**<br>Medru gyrru a bod â thrwydded lân<br>Medru cyflawni dyletswyddau cysgu mewn (os oes angen)<br>Medru neu barod i gynnal hyfforddiant MIDAS i fedru gyrru bws mini wedi ei addasu . | H<br>H<br>H | ✓<br>✓<br>✓ | | | |
| **Gwybodaeth/Sgiliau** | | | | | |
| Dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sylfaen i amgylchedd gofal ansawdd uchel h.y. preifatrwydd, urddas, parch, annibyniaeth a hawliau.<br>Gwybodaeth o safonau gofynnol a osodir gan Safonau Gofal.<br>Deall egwyddorion gwerthoedd gofal cymdeithasol e.e. presenoldeb cymunedau gwerthfawr | H | ✓<br>✓<br>✓ | ✓<br>✓<br>✓ | | |

| 2. Gofynion Arbennig | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Doniau** | | |
| • Medru cyfathrebu'n effeithiol yn llafar ac mewn ysgrifen<br>• Gallu i hyrwyddo hawliau, urddas a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth<br>• Medru gwneud tasgau ymarferol a rhoi cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth gynorthwyo gyda'u hanghenion personol<br>• Medru gweithio heb arolygiaeth agos<br>• Ymroddiad i hyfforddiant a datblygu eich sgiliau eich hun<br>• Medru cynorthwyo/cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i'w alluogi i gynnal/cyflawni mwy o annibyniaeth<br>• Medru ysgrifennu, gweithredu, monitro ac adolygu Cynlluniau Gofal Unigol/ cynlluniau gofal y defnyddwyr gwasanaeth<br>• Medru cydlynu a chyfathrebu'n effeithlon gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill<br>• Medru mynd gyda defnyddwyr gwasanaeth ar eu gwyliau | Mae'r holl ddoniau yn hanfodol | |
| **Nodweddion personol** | | |
| • Dangos parch at anghenion a dymuniadau defnyddwyr gwasanaeth, cynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth<br>• Gallu i weithio oriau hyblyg yn cynnwys ar benwythnosau a chysgu mewn fel a phan fo angen<br>• Ymrwymiad i ddatblygu perfformiad drwy oruchwyliaeth a hyfforddiant<br>• Deall a pharchu egwyddorion cyfrinachedd | Mae'r holl nodweddion yn hanfodol | |
| **Cyfle Cyfartal** | | |
| Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo polisi Cyfle Cyfartal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent mewn modd cadarnhaol. | H | |

| **2. Gofynion sgiliau yn y Gymraeg** | Hanfodol/ Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (noder) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (lefel 0 yn yr holl llefelau sgiliau yn y Gymraeg) | Dymunol | ✓ | | | |
| Mae sgiliau yn y Gymraeg hanfodol a dylai ymgeiswyr naill ai feddu ar y sgiliau perthnasol neu fod yn barod i'w dysgu pan y'u penodir i'r swydd (lefelau 1-3) | Hanfodol | | | | |
| Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (lefelau 4 a 5) | Hanfodol | | | | |

| | Lefel 0 | Lefel 1 Mynediad | Lefel 2 Sylfaen | Lefel 3 Canolradd | Lefel 4 Uwch | Lefel 5 Hyfedredd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Siarad/Gwrando | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Darllen/Deall | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Gweler "Canllawiau Sgiliau yn y Gymraeg" ar wefan Blaenau Gwent i gael mwy o wybodaeth ar y lefelau uchod.

**3. Cymwyseddau Personol**

Caiff pob cymhwysedd eu hystyried fel bod yn hanfodol, er y cydnabyddir y gall rhai gael eu cyflawni dros gyfnod. Disgwylir i'r holl gyflogeion i ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol gyda'r fframwaith priodol.
Yn ogystal â'r rhai a aseswyd fel rhan o'r broses recriwtio, caiff cymwyseddau eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedyn drwy gynllun hyfforddiant perfformiad yr Awdurdod.

| | | **Dull Asesu** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
| **Cyflenwi'r Gwasanaeth** | Blaen-gynllunio, trefnu gwaith ymlaen llaw | ✓ | | | ✓ |
| | Cynnwys rheolwr llinell/ cydweithwyr wrth osod a chyflawni targedau | ✓ | | | ✓ |
| | Ad-drefnu gwaith pan fo angen | ✓ | | | ✓ |
| | Mynd â thasgau rhagddynt hyd eu cwblhau lle bynnag sy'n bosibl | ✓ | | | ✓ |
| | Gofyn am help os daw pwysau gwaith yn anhylaw | ✓ | | | ✓ |
| | Defnyddio cymhelliant i roi adroddiad ar faterion sy'n codi sy'n effeithio ar eraill | ✓ | | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
| **Gwella a Newid** | Parod i roi cynnig ar bethau newydd a rhoi adborth ar ganlyniadau | | ✓ | | ✓ |
| | Deall fod angen newidiadau os yw pethau i wella | | ✓ | | ✓ |
| | Canfod ffyrdd newydd a chreadigol o wneud pethau'n well | | ✓ | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio datblygu eu sgiliau a gwybodaeth ei hun | | ✓ | | ✓ |
| | Dysgu o gamgymeriadau a chroesawu adborth adeiladol | | ✓ | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
| **Darparu Gwasanaeth Ardderchog i Gwsmeriaid** | Adnabod pwysigrwydd safonau uchel gwasanaeth cwsmeriaid | | ✓ | | ✓ |
| | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth ardderchog i holl ddinasyddion Blaenau Gwent | | ✓ | | ✓ |
| | Deall y cysylltiadau rhwng eu proffesiynoldeb eu hunain a'r effaith bosibl ar ddelwedd yr Awdurdod | | ✓ | | ✓ |
| | Agwedd broffesiynol sy'n gosod esiampl i gydweithwyr | | ✓ | | ✓ |
| | Ymfalchïo yn eu gwaith eu hun a gwaith cydweithwyr | | ✓ | | ✓ |
| | Bob amser yn dangos parch, yn gwrtais a pharod i gynorthwyo | | ✓ | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
| **Gwaith Tîm** | Ymateb yn adeiladol i awgrymiadau a cheisiadau pobl eraill | | ✓ | | ✓ |
| | Cydnabod gwerth posibl barn pobl eraill a mynd ati i ofyn am eu cyfraniadau | | ✓ | | ✓ |
| | Gofyn am help pan fo angen | | ✓ | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio helpu pobl eraill | | ✓ | | ✓ |
| | Gwybod am effaith eu hymddygiad eu hunain ar bobl eraill | | ✓ | | ✓ |

| | | Dull Asesu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
| **Cyfathrebu** | Addasu cynnwys ac arddull i helpu pobl eraill i ddeall | | ✓ | | ✓ |
| | Gwneud yn sicr y caiff pobl wybodaeth yn rheolaidd | | ✓ | | ✓ |
| | Defnyddio iaith, ystum a thôn priodol wrth siarad gydag eraill | | ✓ | | ✓ |
| | Gwirio fod eraill wedi deall a cheisio cyngor pan fo angen | | ✓ | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio gwella pob math o gyfathrebu gyda phobl eraill | | ✓ | | ✓ |
| | Cyfathrebu'n broffesiynol drwy ddefnyddio sianeli ffurfiol priodol i'r sefyllfa | | ✓ | | ✓ |